

# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

**Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.**

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Newidiadau Pensiwn y Wladwriaeth: pwyntiau bwled

Gellir defnyddio'r pwyntiau allweddol isod i ysgrifennu erthygl



## Awgrym o ddarlun pennawd:



Mae Pensiwn y Wladwriaeth yma

Mwy o wybodaeth yn:  
[www.gov.uk/yourstatepension](http://www.gov.uk/yourstatepension)

  
Adran Gwaith  
a Phensiynau

## Awgrym o deitl:

Pensiwn newydd y Wladwriaeth: beth mae'r newidiadau'n golygu i chi

## Pwyntiau allweddol:

Mae Pensiwn newydd y Wladwriaeth wedi cael ei gyflwyno ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016.

## Ar bwy yr effeithir?

- Cafodd Pensiwn newydd y Wladwriaeth ei gyflwyno ar 6 Ebrill 2016.
- Bydd newidiadau'n effeithio ar ddynion wedi eu geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951 a merched wedi eu geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953.
- Gallwch wirio pa bryd byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn [www.gov.uk/state-pension-age](http://www.gov.uk/state-pension-age).

## Faint fyddwch yn cael?

- Os ydych yn gymwys i Bensiwn newydd y Wladwriaeth byddwch yn cael o leiaf cymaint yn seiliedig ar eich cofnod Yswiriant Gwladol eich hun i 6 Ebrill 2016 a phe baech wedi derbyn o dan y system Pensiwn y Wladwriaeth presennol, cyn belled ag eich bod yn cyfarfod yr Isafswm Cyfnod Cymhwyso o 10 mlynedd.
- Mae faint o Bensiwn newydd y Wladwriaeth y byddwch yn ei gael yn dibynnu yn bennaf ar eich cofnod Yswiriant Gwladol yn y gorffennol. Fel arfer, byddwch angen o leiaf 10 o flynyddoedd cymhwyso ar eich cofnod Yswiriant Gwladol i chi gael unrhyw Bensiwn newydd y Wladwriaeth. Y gyfradd wythnosol llawn o Bensiwn newydd y Wladwriaeth yw £ 155.65 (2016/17).
- Gallai eich Swm Cychwynnol yn y Pensiwn newydd y Wladwriaeth fod yn fwy na'r gyfradd lawn y Pensiwn newydd y Wladwriaeth os nad ydych wedi cael eich eithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth am gyfnodau sylweddol. Byddwch yn cael swm uwch na'r gyfradd lawn fel 'Taliad Gwarchodedig'.
- Os oes gennych lai na'r gyfradd lawn fel Swm Cychwynnol gallwch hefyd hybu eich incwm Pensiwn y Wladwriaeth drwy barhau i weithio a thalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol neu ychwanegu rhagor o flynyddoedd i'ch cofnod Yswiriant Gwladol, neu ychwanegu rhagor o flynyddoedd i'ch cofnod Yswiriant Gwladol.

# Newidiadau Pensiwn y Wladwriaeth: pwyntiau bwled

Gellir defnyddio'r pwyntiau allweddol isod i ysgrifennu erthygl



## Eithrio

- mae tua 70 cant o bobl wedi eithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn ystod eu gyrfaedd. Pan gyflwynwyd Pensiwn newydd y Wladwriaeth ar 6 Ebrill 2016 daeth eithrio i ben.
- Mae'r blynyddoedd cymhwys ar eich cofnod cyfraniadau YG, hyd at a chan gynnwys y flwyddyn dreth 2015/2016, yn cael eu defnyddio i weithio allan faint o Bensiwn y Wladwriaeth y byddech yn ei gael o dan y rheolau:
  - cynllun Pensiwn newydd y Wladwriaeth a ddechreuodd ym mis Ebrill 2016, sy'n seiliedig ar 1 / 35ain o £151.25 (Y gyfradd lawn o Bensiwn y Wladwriaeth newydd - £ 155.65 o fis Ebrill 2016) ar gyfer pob blwyddyn gymhwyso, hyd at uchafswm o 35 mlynedd, a
  - yr hen gynllun Pensiwn y Wladwriaeth. Mae dwy ran - Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth yn seiliedig ar 1/30ain o £ 115.95 (y gyfradd lawn o Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth - £119.30 o fis Ebrill 2016) ar gyfer pob blwyddyn gymhwysol, hyd at uchafswm o 30 mlynedd, a Phensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn seiliedig ar enillion.

## Gwybod y ffeithiau

- Os oeddech mewn cynllun eithrio, gofynnwch i'ch cyflogwr ynglŷn â sut y bydd hyn yn effeithio arnoch
- Bydd rhan o'ch pensiwn preifat yn adlewyrchu'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol na wnaethoch dalu i'r Wladwriaeth pan wedi eithrio o'r Pensiwn y Wladwriaeth perthnasol-i enillion.
- mae mwy o wybodaeth yn [www.gov.uk/yourstatepension](http://www.gov.uk/yourstatepension), lle y gallwch:
  - cael gwybod eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth
  - cael datganiad Pensiwn y Wladwriaeth personol

Gwnewch yn siwr eich bod yn ymwybodol o beth mae'r newidiadau yn ei olygu i chi a'ch ymddeoliad.